



PENNOD 1

Llond Jar o Sgriws

‘**M**ae’n amser cysgu, Damelsa!’ gweiddodd Nain Myfi wrth droed grisiau’r atig. ‘A dim sleifio allan o dy wely i weithio ar dy ddyfeisiadau eto heno, ti ’nghlywed i?’

O dan gwilt trwm y gwely, ei Sbaner Sbardun (er mwyn sbarduno’i syniadau) yn dynn yn ei llaw, a hithau’n barod wedi gwisgo fel gwyddonydd mewn cot wen, gwenodd Damelsa o glust i glust. ‘Iawn, Nain!’ atebodd. ‘Gaddo!’

‘A dim aros ar dy draed yn hwyr yn darllen y llyfrau gwyddoniaeth ’na chwaith, ti’n dallt?’

‘Yndw, Nain! Wela i chi’n bora!’

Diffoddodd Damelsa’r lamp fach oedd wrth ei gwely, a gwranddo trwy’r tywyllwch am y wich ar lawr y landin wrth i Nain Myfi hercian yn ôl i’w stafell wely. Daeth

sŵn llenni'n cael eu tynnu, ac yna sŵn slippers yn cael eu cicio ar lawr, a chyn pen dim roedd grwndi chwyrnu'r hen wreigan yn llenwi Bwthyn Blegerwyd.

Gwthiodd Damelsa'r cwrlid trwm oddi arni ac estyn am y fflachlamp oedd yn gudd o dan ei matres. *Sori, Nain*, meddylodd, wrth gynnau'r golau gwan. *Ond does dim byd yn mynd i fy stopio rhag dyfeisio. Yn enwedig rhywbeth sy mor ddibwys â mynd i gysgu!*

Heb wastraffu eiliad arall, sbonciodd Damelsa allan o'i gwely a chyfnewid ei sbectol arferol am bâr o Sbecs Arsylwi. Roedd ei Sbecs Arsylwi â rhes o chwyddwydrau yn hongian oddi arnyn nhw fel jariau jam. Nesa, gwisgodd ei Chap Meddwl. Fe ddarllenodd hi unwaith fod pob Dyfeisydd yn berchen ar het — os oedd yn Ddyfeisydd gwerth ei halen. Felly, fyddai hi byth yn dechrau dyfeisio heb roi'r het werdd 'ma am ei phen, het fyddai pobol o'r oes o'r blaen yn ei gwisgo er mwyn mynd i hela. Yn ei barn hi, roedd yr het yn gwneud iddi edrych yn hynod o broffesiynol. (Roedd hi wedi meddwl unwaith hefyd am dyfu mwstach i berffeithio'r ddelwedd, mwstach fel un ei harwr, Yr Athro Hobert ap Hafgan — ond, a hithau'n ferch ysgol un ar ddeg oed, roedd hyn ychydig yn fwy anodd nag oedd hi wedi'i obeithio.)

Y nos oedd hoff amser Damelsa i ddyfeisio, pan oedd

pawb arall yn cysgu. Gallai adael i'w dychymyg redeg yn rhydd o dan gwrlid tawel y tywyllwch. Wrth iddi gerdded ar fodiau'i thraed ar draws llawr yr atig, taflai ei fflachlamp olau melyn gwan ar hyd y waliau. Ar ei silffoedd eisteddai un meicrosgop hynafol ar ôl y llall, gwifrau copr, ac offer o bob math. Yno, roedd poteli o gemegion wedi eu gosod yn nhrefn y wyddor — o alwminiwm hyd at zinc — ac roedd jariau o sgrïws a hoelion yn sgleinio'n ddisglair fel haid o chwilod metel. O dan y ffenest roedd telesgop yn pwyntio tuag at y sêr, yn aros yn eiddgar am unrhyw ddigwyddiad cyffrous yn y gofod.

'Reit,' meddai Damelsa, gan eistedd wrth ei desg a chynnau ei lamp fach. 'Deuparth gwaith yw dechrau.' Agorodd un o ddrors ei desg ac estyn bocs bwyd oedd yn llawn brechdanau caws a menyn-cnau-mwnci — brechdanau wedi eu torri yn drionglau isosgeles perffaith, wrth gwrs. Y petrol perffaith i'r pen ar gyfer y noson hir o'i blaen!

O'r silff uwchlaw estynnodd am nodiadur, gyda'r geiriau *Damelsa Penorlais: Dyfeisydd* ar ei glawr. Bodiodd drwy'r tudalennau cyn dod i stop wrth dudalen llawn rhifau wedi eu sgrïblo mewn inc du fel glo. Yn eu canol roedd llun technegol o law robotaid fawr, a

bysedd y llaw yn ymestyn fel bwisiaid o fananas metel.
O dan y llun roedd hi wedi ysgrifennu hwn:

Wyt ti wedi cael llond bol o gollu
amser cinio yn sgwennu llinellau fel cosb?
Wyt ti wedi hen flino ar wastraffu amser
yn gwneud gwaith cartref?
Os felly, dyfais Dr Damelsa Penorlais ydi'r ateb!

LLYW LLAW ROBOTAIDD AR GYFER GWAITH CARTREF DIFLAS

Mae'r ddyfais chwyldroadol hon wedi cael ei
chreu er mwyn sgwennu unrhyw draethawd
ar gyfer unrhyw athro, gan ddynewared dy
lawysgrifen yn berffaith — bob tro! Mae
technoleg gyfoes y ddyfais yn dweud tarta
wrth y cas pensiliau, hwyl fawr i roi mwy o inc
yn dy sgrifbin, a ffarwel i roi min ar dy bensil.
Y cyfan sydd angen gwneud ydi defnyddio'r
llyw llaw robotaidd er mwyn arwain y ddyfais
sgwennu drwy'r awyr.

Gwenodd Damelsa wrth ddarllen y geiriau unwaith
eto, gyda'i phen-glin chwith yn bownsio i fyny ac i
lawr fel y gwnâi pan oedd ganddi gynllun da ar waith.

Meddylodd am greu'r ddyfais yma ar ôl i'w phrif-athrawes, Miss Callwen, ei chadw i mewn amser cinio gan iddi ddod ag Aelhaearn, ei llygoden anwes, i'r dosbarth yr wythnos cynt. 'Does dim croeso i lygod mewn ysgol,' sgyrnygodd Miss Callwen, gan afael yn y creadur bach gerfydd ei gynffon, a hwnnw'n crynu gan ofn. 'Mewn caets mae hwn i fod, neu'n well fyth, heb ei ben mewn trap! Dwi am i ti ysgrifennu'r canlynol fil o weithiau: "Ysgol i ddysgu plant yw Bronmeirwon, nid sw i gadw anifeiliaid"... a dwi'n disgwyl i ti neud erbyn diwedd y dydd!'

Gyda gwreichion yn tasgu i bobman wrth iddi lifio trwy diwbiau copr a weldio darnau metel at ei gilydd, gweithiodd Damelsa'n ddi-dor drwy bob munud o'r awr nesa. Roedd ganddi ddiddordeb mewn dyfeisio ers cyn cof. Ei dyfais gynta oedd y Teclyn Twt i Fflingio Fflwff y Botwm Bol. Roedd hi ond yn bedair oed pan wnaeth hi greu hwn drwy ddefnyddio hen whisg trydanol. Yr unig beth allai gymharu â'r teimlad bendigedig a gai wrth weld dyfais yn dod yn fyw, oedd wrth ddatrys cwestiwn gwyddonol anodd.

Roedd y cloc ar y wal wedi hen droi hanner nos erbyn i Damelsa roi ei thŵls o'r neilltu. Roedd y llaw robotaid bron yn barod — cymysgfa o ddannedd

mecanyddol, darnau sbâr o injan stêm oedd wedi hen chwythu ei phlwc, a darnau o gyfarpar o'r gegin doedd neb yn eu defnyddio mwy — y cwbl yn cael eu dal ynghyd gan ddarnau o sodor gloyw a thâp selo. Dan olau'r lleuad roedd y llaw yn disgleirio fel creadur o fyd arall, a rhedodd ias wefreiddiol o gyffrous o gorun hyd sawdl Damelsa. Roedd yn teimlo fel petai'r ias yn tasgu a ffrwydro drwy bob un o'r brychni bach oedd yn britho'i chroen.

'Reit, dwi jest angen tynhau'r falf ginetig,' meddai, wrth lapio cwrl o wallt coch o gwmpas ei bys, 'yna ail-lenwi'r pecyn batri. Wedyn, dwi'n meddwl y bydda i bron yn barod i...'

'DAMELSA PENORLAIS! BE SY'N MYND
MLAEN FYNY FAN 'NA?'

Daeth bloedd sydyn o lawr grisiau, gan ysgwyd Damelsa o'i byd bach dyfeisgar. Mewn sioc, llamodd o'i desg a thaflu ei sbaner fel saeth trwy'r awyr. 'Nefi'r niwtronau!' ebychodd. 'Mae Nain Myfi 'di deffro!'

Dechreuodd y grisiau wichian, a sŵn traed yn *tap-tapio'r* llawr pren wrth i gamau Nain Myfi ddod yn nes ac yn nes. Mewn ffit binc, triodd Damelsa gael gwared ar arogl y sodor tawdd drwy chwifio'i dwylo'n wyllt uwch ei phen, cyn taflu hen gyngas dros ei desg. Doedd Nain

Myfi ddim yn dweud y drefn yn aml iawn, ond roedd hi yn credu'n gryf mewn amser gwely. Doedd Nain grac a blinedig ddim yr un person â Nain sionc a hwyliog a fyddai'n gwneud wŷ a sowldiwrws i frecwast.

Heb eiliad i'w cholli, neidiodd Damelsa nôl i'w gwely. Tynnodd y gynfas drom dros ei phen ac esgus chwyrnu'n swnllyd.

Agorodd drws yr atig yn lled y pen.

'Damelsa Penorlais, dwi'n gwbod yn iawn nad wyt ti'n cysgu!' Er bod llais Nain Myfi'n gryg, roedd mor fyddarol â chorn gwlad. 'Fedri di mo 'nhwylllo fi efo'r chwyrnu smalio 'na!'

Yn ara deg, agorodd Damelsa ei llygaid. Roedd Nain Myfi'n sefyll wrth y drws, y crychau ar ei hwyneb fel dyffrynnoedd tywyll cul yn y golau gwan. Roedd clogyn llaes o wallt gwyn yn estyn hyd waelod ei chefn, ac er bod ei chroen mor denau â phapur, roedd ei llygaid yn sgleinio fel sêr.

'O, Nain, *chi* sydd yno,' meddai Damelsa, gan rwbio'i llygaid fel actores oedd wedi actio'r rhan droeon o'r blaen. 'Rôn i'n meddwl mai breuddwydio rôn i.'

'Go dda, madam!' meddai Nain Myfi, gan hercian draw at y gwely. 'Ond ers pryd wyt ti'n gwisgo *hwn* yn dy wely?' Chwipiodd Nain y Cap Meddwl oedd yn dal

am ben Damelsa, a'i chwifio yn yr awyr. 'Rwyt ti wedi bod yn dyfeisio eto, on'd wyt ti? A thitha i fod yn cysgu!'

'N-naddo,' llyncodd Damelsa, gan geisio meddwl am esgus da. 'Rôn i'n brysur yn gwneud... fy... ngwaith cartref, Nain.'

'Ha! *Chdi?* Yn gwneud gwaith cartref? Mi greda i hynny pan wela i'r peth! Sawl llythyr dwi 'di cael gan Miss Callwen y tymor yma, dwêd? Sawl tro mae hi wedi dy gadw di mewn am freuddwydio yn y dosbarth?'

Ochneidiodd Damelsa wrth feddwl am yr hen brifathrawes grintachlyd. 'Yyyymmm... ond mae'r petha 'dan ni'n ddysgu yn yr ysgol mor ddiflas, Nain! Pam all Miss Callwen ddim dysgu rhywbeth defnyddiol i ni? Fel sut i adeiladu llong ofod... neu dyfu caws llyffant?'

Disgynnodd eiliad o ddistawrwydd annifyr ar draws y stafell, cyn i'r gwg ar wyneb Nain Myfi gyrlio'n wên fach faddeugar. 'Y mwnci bach digywilydd,' meddai, gan roi pinsiad i foch ei hwyres. Roedd craith goch, ddisglair ar hyd cefn ei llaw. 'Rwyt ti'n lwcus 'mod i'n dy garu di gymaint, on'd wyt? Wn i ddim sawl nain arall fyddai'n fodlon byw dan yr un to â'r ffasiwn wyddonydd gwallgof â chdi.'

'Dyfeisydd, Nain,' meddai Damelsa gan gywiro'i nain. 'Dyfeisydd ydw i!'

Gydag un ochenaid fawr, meddai Nain Myfi, ‘Mi ydw i o ddifri, Damelsa. Tydi o’n gwneud dim lles i ti dreulio cymaint o amser fyny fa’ma ar dy ben dy hun yn dyfeisio. Pam na ’nei di wadd ffrind o’r ysgol draw rhyw ddiwrnod? Treulio tipyn o amser allan yn yr ardd?’

‘Achos does gen i ddim ffrindiau yn yr ysgol, Nain,’ atebodd Damelsa yn swta. ‘Does neb yn y dosbarth fedra i sgwrsio efo nhw am anwytho electromagnetig neu gyflyrau egni’ol atomig. Y peth mwya dwys maen nhw erioed wedi’i drafod ydi pa liw creon sy’n blasu ora!’

‘Wel, be am i ti wadd yr hogyn clên ’na sy’n byw ar waelod yr allt i ddod draw am swper un noson yr wythnos hon? Rôn i’n meddwl dy fod ti’n dipyn o ffrindiau efo fo. Be ’di enw fo eto?’

‘Peris?’

‘Ia, dyna ti, hwnnw. Tydi o ddim wedi byw yma’n hir iawn, ac mae’n siŵr y galla fo wneud efo tipyn bach o help i ddod allan o’i gragen — yn enwedig heb ei fam o gwmpas. Beth os ’nai’r pastai cyw iâr ’na ti’n licio?’

‘Dwi ’di deud wrthoch chi’n barod, Nain... tydi o ddim yn cael mynd i dai pobol eraill. Rhywbeth i wneud efo’i alergedd — mae gynno fo gant a mil ohonyn nhw. Tydi o ddim hyd yn oed yn cael mynd i’r ysgol, ac mae o’n gorfod cymryd ffisig arbennig yn lle bwyd.’

'Hen dro,' meddai Nain Myfi. 'Mae 'na waith pesgi arno fo. Mae o'n llawer rhy welw a rhy denau, y creadur bach.'

'Y ffordd mae ei dad o'n ffysian, mi fasach chi'n meddwl bod y pla du arno fo!'

'Wel, dwi'n siŵr mai ei dad sy'n gwbod ora.' Rhedodd Nain Myfi ei bysedd drwy wallt Damelsa, a lapio'i hwyres yn dynn yn y dillad gwely. 'Reit, dos di i fro'r breuddwydion. Wyt ti am i mi ddeud stori i dy helpu di gysgu? Beth am yr un amdana i yn reslo efo'r sloth teircoes ym Mhatagonia?' meddai, gan droi ei llaw yn grafanc, fel petai'n gafael mewn creadur anweledig.

'Nain, dewch mlaen,' gwgodd Damelsa. 'Sawl tro sy'n rhaid i mi ddeud? Dwi'n rhy hen ar gyfer eich straeon gwirion chi.'

'O'r gora, o'r gora, dim ond cynnig...' Plygodd Nain Myfi, a rhoi cusan goslyd ar dalcen Damelsa. Roedd arogl lafant, moddion peswch a rhywbeth arall ar ei nain, rhywbeth allai Damelsa fyth roi ei bys arno. 'Nos da, cariad. Caru chdi mwy na phanad.'

'Caru chi mwy na ffiws mewn plwg,' atebodd Damelsa, gan swatio. Edrychodd ar y llun o Hobert ap Hafgan yn ei ffrâm wrth ochr ei gwely. Yn dawel bach, ochneiodd... 'Sori, Hobert, bydd rhaid i'r datblygiadau gwyddonol aros tan fory.'